# CLODDIAD CYMUNEDOL MAENCLOCHOG

## Darganfod tarddiad Maenclochog

**Hydref 2007**

Paratowyd gan: Archaeoleg Cambria
Ar gyfer: PLANED

1 Cwmni cyfyngedig (1198990) ynghyd ag elusen gofrestredig (504616) yw'r Ymddiriedolaeth. The Trust is both a Limited Company (No. 1198990) and a Registered Charity (No. 504616)

CADEIRYDD *CHAIRMAN: C R MUSSON MBE B Arch FSA MIFA.*
CYFARWYDDWR *DIRECTOR: K MURPHY BA MIFA*

**ARCHAEOLEG CAMBRIA**

RHIF YR ADRODDIAD 2008/27
RHIF Y PROSIECT PRN 63194

Mawrth 2008

# CLODDIAD CYMUNEDOL MAENCLOCHOG MEDI 2007

## Darganfod tarddiadMaenclochog

Gan

**Duncan Schlee**

*Archaeoleg Cambria yw enw marchnata Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed Cyfyngedig.*

*Paratowyd yr adroddiad yma at ddefnydd y cwsmer yn unig. Ni dderbynnir cyfrifoldeb gan Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed am ei ddefnyddio gan unrhyw berson na phersonau eraill a fydd yn ei ddarllen neu ddibynnu ar y gwybodaeth y mae'n ei gynnwys*

ARCHAEOLEG CAMBRIA
Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed Cyf
Neuadd y Sir, Stryd Caerfyrddin, Llandeilo, Sir Gaerfyrddin SA19 6AF
Ffon: Ymholiadau Cyffredinol 01558 823121
Adran Rheoli Treftadaeth 01558 823131
Ffacs: 01558 823133
Ebost: cambria@cambria.org.uk
Gwefan: www.cambria.org.uk

CAMBRIA ARCHAEOLOGY
Dyfed Archaeological Trust Limited
The Shire Hall, Carmarthen Street, Llandeilo, Carmarthenshire SA19 6AF
Tel: General Enquiries 01558 823121
Heritage Management Section 01558 823131
Fax: 01558 823133
Email: cambria@cambria.org.uk
Website: www.cambria.org.uk


*Cwmni cyfyngedig (1198990) ynghyd ag elusen gofrestredig (504616) yw'r Ymddiriedolaeth. The Trust is both a Limited Company (No. 1198990) and a Registered Charity (No. 504616)*

CADEIRYDD *CHAIRMAN: C R MUSSON MBE B Arch FSA MIFA.*
CYFARWYDDWR *DIRECTOR: K MURPHY BA MIFA*

**CYNNWYS**

**CRYNODEB** **1**

**CYDNABYDDIAETH** **1**

**CYFLWYNIAD** **2**

Cefndir y prosiect 2
Methodoleg 2

**LLEOLIAD Y SAFLE A DISGRIFIAD OHONO** **3**

**HANES Y SAFLE** **4**

**GWEITHDREFNAU'R CLODDIAD** **5**

**CANLYNIADAU'R CLODDIAD** **6**

Ffos 1 6
Ffos 2 7

**TRAFODAETH** **9**

**CASGLIADAU** **11**

**GEIRFA** **12**

**LLYFRYDDIAETH** **13**

**ATODIADAU** **14**

Atodiad 1 Dadansoddiad o grochenwaith
Atodiad 2 Gweddillion planhigion rhuddedig
Atodiad 3 Rhestr o ddarganfyddiadau
Atodiad 4 Dyddio carbon 14

**DARLUNIAU**

Ffigur 1: Map o'r lleoliad
Ffigur 2: Lleoliad y ffosydd
Ffigur 3: Map degwm o bentref Maenclochog
Ffigur 4: Cynllun o Ffos 1
Ffigur 5: Toriad trwy haenau yn Ffos 1
Ffigur 6: Cynllun o'r nodweddion yn Ffos 2
Ffigur 7: Toriad yn wynebu'r de trwy Ffos 2
Ffigur 8: Llun yn dangos y gwaith carreg yn wal y ffald a waliau'r castell
Ffigur 9: Y gwahanol gyfnodau adeiladu yn Ffos 2
Ffigur 10: Cymharu Maenclochog â dau loc amddiffynnol arall
Ffigur 11: Maenclochog fel mwnt a beili o'i gymharu â Chastell Cas-wis

Llun 1: Maenclochog o'r awyr
Llun 2: Llun o'r ffald ar ddechrau'r 20fed ganrif
Llun 3: Y gwahanol haenau yn Ffos 1
Llun 4: Glanhau nodweddion yn Ffos 1


*Cwmni cyfyngedig (1198990) ynghyd a elusen gofrestredig (504616) yw'r Ymddiriedolaeth. The Trust is both a Limited Company (No. 1198990) and a Registered Charity (No. 504616)*

CADEIRYDD *CHAIRMAN: C R MUSSON MBE B Arch FSA MIFA.*
CYFARWYDDWR *DIRECTOR: K MURPHY BA MIFA*

Llun 5: Cloddio nodweddion yn Ffos 1
Llun 6: Claddedigaeth dau gi 012 yn Ffos 1
Llun 7: Aelwyd 052 yn Ffos 1 cyn cloddio
Llun 8: Aelwyd 052 yn Ffos 1 ar ôl cloddio
Llun 9: Twll postyn 045 yn Ffos 1
Llun 10: Ffos sylfaen wal tŷ crwn yn Ffos 1
Llun 11: Ffos tŷ crwn 011 yn Ffos 1
Llun 12: Tyllau pyst yn Ffos 1
Llun 13: Ffos 1 yn dangos arwyneb cerrig mân 015 a thyllau stanc 061
Llun 14: Ffos 1 yn dangos arwyneb cerrig mân 015 a thyllau stanc 061
Llun 15: Ffos 1 yn dangos llinell ffens bosibl
Llun 16: Ffos 1 yn dangos y tu mewn i'r tŷ crwn
Llun 17: Ffos 2 yn dangos ochr ogleddol y castell/wal y ffald
Llun 18: Ffos 2 yn dangos y castell a waliau'r ffald
Llun 19: Ffos 2 yn dangos ochr a chraidd wal y castell
Llun 20: Ffos 2 yn dangos pridd clawdd 036 a ffos 041.
Llun 21: Ffos 2 yn dangos llwybr sathredig posibl 030
Llun 22: Ffos 2 yn dangos twll postyn 027 yn ystod y cloddio
Llun 23: Ffos 2 yn dangos twll postyn 027 ar ôl y cloddio
Llun 24: Ffos 2 yn dangos prif nodweddion a dyddodion
Llun 25: Ffos 2 yn ystod y broses o symud clawdd 036
Llun 26: Ffos 2 yn dangos pridd claddedig 038 ar ôl symud pridd clawdd 036
Llun 27: Ffos 2 yn dangos dyddodion ar yr ochr ogleddol
Llun 28: Ffos 2 yn dangos dyddodion ar yr ochr ogleddol
Llun 29: Glanhau Ffos 2 ar gyfer llun
Llun 30: Gwirfoddolwyr yn dysgu sut i lunio cynllun archaeolegol
Llun 31: Esbonio'r archaeoleg yn Ffos 1 i blant yr ysgol leol
Llun 32: Cyflwyno gwirfoddolwyr i gofnodion adeiladu archaeolegol


*Cwmni cyfyngedig (1198990) ynghyd ag elusen gofrestredig (504616) yw'r Ymddiriedolaeth. The Trust is both a Limited Company (No. 1198990) and a Registered Charity (No. 504616)*

CADEIRYDD *CHAIRMAN: C R MUSSON MBE B Arch FSA MIFA.*
CYFARWYDDWR *DIRECTOR: K MURPHY BA MIFA*

**CRYNODEB**

Cynhaliwyd cloddiad archaeolegol am bythefnos ym Maenclochog yn Sir Benfro, (NGR SN083272) yn ystod ail hanner mis Medi 2007. Cynhaliwyd y cloddiad gan Archaeoleg Cambria a fu'n gweithio gydag aelodau o'r gymuned leol a gafodd eu recriwtio gan PLANED, gyda chymorth gan Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro, a chyllid gan PLANED gan LICC ac Arweinydd yr UE a'r prosiect rhyngwladol "Experience Pembrokeshire". Nodwyd bod angen y prosiect o Gynllun Gweithredu'r gymuned.

Nod y cloddiad oedd darganfod tystiolaeth o 'safle'r castell' yr oedd pobl leol wedi credu ers tro ei fod wedi'i leoli ar safle presennol maes parcio a chanolfan amwynderau'r pentref. Darganfuwyd wal ffald faenorol, gweddillion mur castell, clawdd a ffos amddiffynnol, a thystiolaeth o anheddiad cyn cyfnod y Normaniaid.

Mae'r cloddiad wedi dangos bod anheddiad amddiffynnol o ddechrau'r Canol Oesoedd ar y safle cyn i'r castell gael ei adeiladu a oedd wedi'i amgylchynu gan glawdd a ffos amddiffynnol. Mae anheddiad o ddechrau'r Canol Oesoedd yn ddarganfyddiad prin iawn yng Nghymru, a'r hyn sy'n ddiddorol yw'r ffaith ei fod yn dystiolaeth y bu pobl yn byw mewn tai crwn yma, nes i'r Normaniaid orchfygu Sir Benfro, pan adeiladwyd Castell Maenclochog. Roedd tai crwn fel arfer yn gysylltiedig â'r Oes Haearn a chyfnod y Rhufeiniaid.

Cafwyd cryn ddiddordeb gan y cyfryngau yn y cloddiad, a rhoddwyd llawer o sylw iddo ar y radio, y teledu, y papurau newydd a'r rhyngrwyd. Roedd y safle hefyd yn boblogaidd gydag ymwelwyr o'r ardal, disgyblion o ysgolion lleol a'r rheiny oedd ar eu gwyliau yn yr ardal, gyda thros 400 o bobl yn ymweld â'r safle.

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn Gymraeg neu Saesneg.

**CYDNABYDDIAETH**

Diolch i'r Cyngor Cymuned am ganiatâd i gloddio yn y maes parcio. Diolch i John a Julie Dadswell am ganiatâd i gloddio ar eu tir ac am gael defnyddio eu tŷ yn bencadlys. Diolch i Stella a David Davies, Andrew a Tomos Dugmore, John a Julie Dadswell, Tristram Lewis, Lucy Elcomb, Barry Courtier, Sian Rees, Jacquie Linck, Joan Saunders, Frank Robinson, Tessa Griffiths, y Parch. Beckey Davies, Heather Mercer, Richard Wilsher a Linda Norris, am eu cyfranogiad, eu gwaith caled a'u brwdfrydedd dros y prosiect. Diolch i Gymdeithas Clochog (y fforwm cymunedol ar gyfer Maenclochog, Rosebush a Llan-y-cefn), Teifion John (Cadeirydd, Cymdeithas Clochog), Garry Owens (gyrrwr JCB), Christian Donovan, Merrill Mabey a Sandra Rowlands (PLANED), Parry Lloyd a Mike Sheppard (PCC) am eu cydweithrediad a'u cymorth. Wendy Carruthers (dadansoddiad planhigion rhuddedig), Dana Challinor (dadansoddiad siarcol), Paul Courtney (dadansoddiad crochenwaith), Polly Groom (PCNPA), Richard Jones, Alice Pyper a Hubert Wilson (Archaeoleg Cambria). Paul Sambrook, Trysor (ymchwil ddogfennol). Ac yn olaf, diolch i drigolion Maenclochog am eu lletygarwch, eu diddordeb a'u brwdfrydedd dros y prosiect.

## CYFLWYNIAD

### Cefndir y prosiect

Prosiect yn cael ei arwain gan y gymuned oedd y cloddiad ym Maenclochog, yn deillio o ddiddordeb y cyhoedd yn hanes Maenclochog yn ystod yr ymgynghori cymunedol â PLANED (Rhwydwaith Gweithredol Lleol er Menter a Datblygu Sir Benfro) dros gynlluniau i wella'r maes parcio a'r ardal amwynderau, yn unol â'r hyn a nodir yng Nghynllun Gweithredu Cymunedol Maenclochog.

Ffocws y prosiect oedd darganfod mwy am darddiad 'safle'r castell' y credid ers tro ei fod wedi'i leoli ar safle presennol maes parcio Maenclochog. Cynhaliwyd y cloddiad gan wirfoddolwyr o'r gymuned leol a staff o Archaeoleg Cambria. Yr amcanion oedd cynnwys y gymuned yn y broses o ddarganfod hanes Maenclochog wrth ddysgu am y prosesau sy'n ymwneud â chloddio archaeolegol a'u profi, trwy gyfranogiad ymarferol. Y gobaith yw y bydd y cloddiad yn ennyn aelodau'r gymuned i ymgymryd â mwy o ymchwil hanesyddol a gweithgareddau cysylltiedig eraill.

Ariannwyd y prosiect gan PLANED gan LICC a phrosiect rhyngwladol EU Leader+, sef "Experience Pembrokeshire" (sy'n ceisio annog cymunedau i ddathlu eu treftadaeth a'u diwylliant); a gyda chymorth gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio'r hyn a ddarganfuwyd yn ystod y cloddiad, a'r hyn y gall ei ddweud wrthym am hanes Maenclochog. Diffinnir y geiriau sydd wedi'u hargraffu'n las mewn geirfa o dermau yng nghefn yr adroddiad hwn.

### Methodoleg

Comisiynwyd yr ymgynghorwyr treftadaeth, 'Trysor', gan PLANED, i gynnal arolwg topograffig a dogfennol o ardal y maes parcio ym mis Medi 2006. O'r adroddiad hwn, datblygwyd prosiect cloddio gan Archaeoleg Cambria.

Cyn y cloddiad, cynhaliwyd sawl cyfarfod wedi'u trefnu gan PLANED mewn cydweithrediad â Cymdeithas Clochog, y fforwm cymunedol lleol, i esbonio nodau ac ymarferoldeb y prosiect i'r gymuned, ac annog cyfranogiad.

Cynhaliwyd y cloddiad yn y maes parcio, lle credid bod tystiolaeth o'r castell yn fwyaf tebygol o oroesi. Roedd ffosydd wedi'u lleoli lle byddent, gobeithio, yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol ac roedd yn hawdd mynd atynt, heb amharu ar y defnydd a wneir o'r maes parcio.

Defnyddiwyd technegau a gweithdrefnau archaeolegol safonol a ddefnyddir ar gyfer 'cloddiad gwerthuso'. Torrwyd y ffosydd i ddechrau gan ddefnyddio JCB, i lawr i lefel lle gellid canfod dyddodion a nodweddion archaeolegol. Yna, cloddiwyd y nodweddion â llaw. Roedd cyfranogwyr cymunedol yn ymwneud â phob agwedd ar y cloddio, y cynllunio a'r cofnodi, o dan oruchwyliaeth gan staff o Archaeoleg Cambria.

Nid yw safle Castell Maenclochog yn Heneb Gofrestredig, felly nid oedd angen caniatâd gan Cadw ar gyfer y cloddio. Eiddo'r cyngor cymunedol yw'r maes parcio, a oedd yn fodlon i'r ffosydd gael eu cloddio. Cafwyd ganiatâd gan y Dadswells hefyd, sy'n berchen ar y cae cyfagos, i gloddio ar eu tir.

**LLEOLIAD Y SAFLE A DISGRIFIAD OHONO**

Mae Maenclochog yn un o blith cadwyn o 'aneddiadau sefydledig' ar hyd godre deheuol Mynyddoedd Preseli (ynghyd ag aneddiadau eraill megis Y Mot, Castell Henri a Chas-lai). Mae siâp y pentref, sydd wedi'i gynllunio o amgylch eglwys y plwyf, gyda chastell ar un pen, a phrif stryd gyda lleiniau tai ar ei hymyl, yn nodweddiadol o aneddiadau o'r fath. Mae'r caeau hir a chul o amgylch y pentref hefyd yn elfen nodweddiadol o'r hyn sydd wedi goroesi o'r system 'cae agored' ganoloesol.

Mae'r maes parcio wedi'i leoli ar ochr ddeheuol y pentref, ar lain o dir siâp hirgrwn. Safle 'ffald faenorol' oedd hwn o'r blaen, lle'r oedd anifeiliaid yn cael eu rhoi dros dro pan oeddent ar eu ffordd trwy'r pentref, ar gyfer marchnadoedd lleol a ffeiriau, neu pan oeddent ar goll.

Mae'r enw Parc y Gaer, a gofnodwyd yn atodlen degwm 1839, yn awgrymu mai hwn hefyd oedd safle Castell Maenclochog. Mae Richard Fenton, a ymwelodd â'r safle yn ystod ei Daith Hanesyddol o Sir Benfro ym 1810, yn disgrifio gweddillion Castell Maenclochog fel 'bychan iawn', sy'n awgrymu efallai mai 'caer archwilio' ydoedd ar un adeg, a adeiladwyd ar safle 'hen gloddwaith Prydeinig'. Mae'r cyfeiriad at 'hen gloddwaith' yn awgrymu efallai mai safle lloc amddiffynnol o'r Oes Haearn oedd hwn o'r blaen.

Ar ochr ddeheuol y maes parcio, mae cerrig brig ac, o'r pen uchaf, mae golygfeydd clir dros y tir i ochr ddeheuol y pentref. Yn ddiweddar, mae'r cerrig brig hyn wedi cael eu hadnabod fel safle tybiedig 'mwnt' castell, a thybir mai ardal y maes parcio oedd y 'beili'.

Fel anheddiad wedi'i gynllunio, gellid bod wedi disgwyl i Faenclochog dyfu a datblygu, er nad yw'n ymddangos mai dyma a ddigwyddodd. Ni chafodd statws bwrdeistref erioed, ac nid oes cofnod o farchnad na ffair yn y Canol Oesoedd (er i lawer o ffeiriau a marchnadoedd gael eu cynnal ym Maenclochog yn ddiweddarach yn ei hanes).

Gallai'r diffyg twf gael ei adlewyrchu yng nghynllun y pentref, yr ymddengys nad yw'n cynnwys y 'lleiniau tir bwrdais' wedi'u mesur yn ofalus a geir mewn trefi fel Trefdraeth. Er y gallai cynllun o'r fath fod wedi bodoli ar un adeg, gallai fod wedi dirywio dros y blynyddoedd wrth i'r boblogaeth leihau. Fel arall, gallai patrwm yr anheddiad fod wedi datblygu mewn modd mwy organaidd, heb gynllun gwreiddiol, ar wahân i'r castell, yr eglwys a'r brif stryd.

**HANES Y SAFLE**

Mae llawer wedi cael ei ysgrifennu am hanes Maenclochog a'r ardal sy'n ei hamgylchynu, ond mae'r adolygiad canlynol yn canolbwyntio ar safle'r castell ac wedi'i seilio'n bennaf ar yr ymchwil ddogfennol a gynhaliwyd gan 'Trysor' (Hall a Sambrook 2006). Teulu Roche o Langwm oedd yn berchen ar ddeiliadaeth Eingl-Normanaidd am arglwyddiaeth neu faenor Maenclochog, yng Nghantref canoloesol Cemaes, yn ystod y 13eg ganrif a'r 14eg ganrif. Roedd castell wedi cael ei sefydlu erbyn 1215 pan sonnir am Faenclochog yn y croniclau Cymreig fel un o'r cestyll niferus a ddifrodwyd gan Rhys Ieuanc a'i ewythr yn y flwyddyn honno. 'Difrodwyd' y castell eto ym 1257 gan Maredudd ap Rhys Gryg a Merydudd ap Owain (Jones 1941).

Er gwaethaf yr ymosodiadau hyn, efallai fod y castell yn cael ei ddefnyddio o hyd pan gafodd ei restru mewn Chwilys o 1376 (Llyfrfa Ei Mawrhydi). Erbyn diwedd yr 16eg ganrif, gallai'r castell fod wedi cael ei adael, oherwydd nid yw'r hynafiaethwr o Oes Elizabeth, George Owen, yn sôn amdano (Pritchard 1906).

O'r 19eg ganrif o leiaf (ac yn gynharach yn ôl pob tebyg), roedd safle'r castell yn cael ei ddefnyddio fel ffald faenorol. Nid yw'n ymddangos bod map o Faenclochog yn dyddio i 1773, yn dangos bod ffald faenorol. Mae Rholiau Llys Maenor Maenclochog o'r 1830s-1850au yn cofnodi'r ffaith fod y ffald yn cael ei defnyddio a'i chynnal. Ym 1870, cyflwynodd ceidwad y ffald amcangyfrif i'r llys ar gyfer 'adnewyddu'r clawdd o amgylch ffald Barwniaeth Maenclochog…. Atgyweirio'r wal o'i amgylch y mae angen ei adnewyddu fwyaf…' (PRO, D/RTP/PIC/71).

Ar ddiwedd y 1960au, cafodd carreg glai 1 metr neu fwy o ran dyfnder, ei gollwng y tu mewn i'r ffald i wneud arwyneb y ddaear yn gyfartal, a throwyd y safle yn faes parcio ar gyfer y pentref. Mae llun a dynnwyd ar ddechrau'r 20fed ganrif (gweler llun 2) yn dangos sut yr ymddangosai'r safle cyn y cyfnod hwnnw.

Heddiw, nid yw ymddangosiad y maes parcio yn edrych llawer fel safle castell. Dim ond trwy ddringo i ben y cerrig brig y cewch argraff o gryfderau amddiffynnol y safle.

Mae disgrifiad Fenton o'r safle hefyd yn awgrymu efallai bod 'lloc amddiffynnol' o'r Oes Haearn yn arfer bod ar y safle cyn sefydlu'r anheddiad yn y Canol Oesoedd.

Mae'r ffordd sy'n rhedeg i'r gorllewin o Faenclochog wedi'i nodi fel Ffordd Rufeinig 'dybiedig' ar rifyn cyntaf ac ail rifyn y mapiau arolwg Ordnans. Mae amheuaeth bellach am y llwybr posibl hwn ar gyfer Ffordd Julia Maritima, oherwydd bod hyn yn seiliedig ar ddogfen a 'ddarganfuwyd' gan 'yr athro' Charles Bertram yn y 18fed ganrif. Dangoswyd yn ddiweddarach mai dogfen ffug oedd hon.

**GWEITHDREFNAU'R CLODDIAD**

Caiff safleoedd archaeolegol eu ffurfio gan haenau o bridd neu strwythurau fel waliau yn ymgasglu'n raddol, wedi'u hadeiladu un ar ben y llall. Mae'r haenau hyn yn cynrychioli gwahanol ddigwyddiadau dros gyfnod. Wrth i'r haenau ymgasglu, mae lefel y tir yn codi. Pan fydd ffos neu 'nodwedd doredig' arall yn cael ei gladdu yn wreiddiol, bydd yn torri i mewn i'r haenau sydd wedi'u claddu oddi tano. Bydd y ffos ei hun yn llenwi â phridd yn y pen draw ac yn cael ei gladdu o dan haenau diweddarach o bridd.

Wrth gloddio, mae archeolegwyr yn tynnu'r gwahanol haenau o bridd yn systematig neu'n gwacáu'r pridd o ffos gladdedig. Drwy weithio o'r brig, caiff yr haenau diweddaraf eu tynnu yn gyntaf, i amlygu'r haenau cynharach oddi tano. Trwy gloddio pob haen ar wahân, gall archeolegwyr adfer cliwiau fel siarcol, asgwrn a chrochenwaith, sy'n gallu rhoi tystiolaeth o ddyddiad a datgelu manylion o fywyd bob dydd yn y gorffennol.

Fel hyn, gallwn ddatrys dilyniant y digwyddiadau sydd wedi arwain at ymgasgliad yr haenau. Trwy ddarganfod tystiolaeth o ddyddiad, gallwn ganfod cyfnod y gwahanol ddigwyddiadau, ac felly darganfod hanes safle.

Rhoddir cyfeirnod neu rif 'cyd-destun' unigryw i bob haen o bridd, neu nodwedd doredig sy'n cynnwys pridd. Defnyddir y rhif hwn i groes gyfeirio cofnodion ysgrifenedig, ffotograffau a darganfyddiadau. O'r herwydd, mae archeolegwyr yn galw gwahanol haenau o bridd yn 'gyd-destunau'.

Defnyddir y gair 'nodwedd' gan archeolegwyr yn gyffredinol i gyfeirio at weddillion archaeolegol sy'n cynrychioli strwythur wedi'i greu gan ddyn (megis wal) neu olion digwyddiad o'r gorffennol (megis claddu ffos neu dwll postyn). Yn gyffredinol, haen o bridd yw 'dyddodyn' sy'n bresennol o ganlyniad i weithgaredd dynol, tra bo 'haen' yn cael ei ffurfio'n naturiol, ond gellir defnyddio'r naill air neu'r llall.

Esbonnir rhai termau eraill a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn yn adran eirfa'r adroddiad hwn (tudalen 15).

Pan fydd yr holl nodweddion archaeolegol wedi cael eu cloddio a'u cofnodi, gellir eu rhannu yn grwpiau yn seiliedig ar nodweddion a rennir, eu perthynas â'i gilydd neu'r patrymau y maent yn eu ffurfio. Gellir cymharu'r grwpiau hyn o nodweddion â'r canlyniadau o safleoedd eraill wedi'u cloddio sy'n debyg o ran math a chyfnod i awgrymu esboniad o'r hyn y mae'r nodweddion yn ei gynrychioli (megis rhannau o adeiladau, strwythurau neu weithgareddau eraill). Fodd bynnag, oherwydd bod y ffos yn amlygu rhai neu ran o'r holl nodweddion yn yr ardal yn unig, gall fod yn anodd penderfynu pa nodweddion i'w rhoi gyda'i gilydd mewn grŵp, a beth yn union y gallent ei gynrychioli.

**CANLYNIADAU'R CLODDIAD**

Bydd yn haws deall y disgrifiadau yn yr adran ganlynol trwy gyfeirio at y cynlluniau, y darluniau a'r lluniau yn yr adroddiad hwn. Rhoddir 'rhif cyd-destun' i bob haen a nodwedd wahanol i sicrhau hwylustod wrth gyfeirio.

Ffos 1 (gweler Ffigurau 4 a 5)

Gan dybio bod castell ar y safle, roedd Ffos 1 wedi'i lleoli yn y rhan o'r castell sy'n cael ei hadnabod fel y 'beili'. Yma, byddai adeiladau domestig ac amaethyddol, a mannau agored lle cynhelid amrywiaeth o weithgareddau dyddiol.

Oherwydd ei lleoliad, roedd digon o le yn y ffos i storio'r pridd cloddedig, galluogi gweithio diogel a gwneud y safle yn hygyrch er mwyn i ymwelwyr allu gwylio datblygiad y cloddio.

Gyda pheiriant cloddio mecanyddol JCB, tynnwyd cyfres o wahanol haenau o bridd i lawr i lefel lle gellid dechrau gweld nodweddion archaeolegol yn cael eu torri yn briddoedd daearegol naturiol 004.

Y ddwy haen gyntaf a dynnwyd oedd y pridd uchaf a'r siâl (001) a osodwyd pan ffurfiwyd y maes parcio. Islaw'r siâl, roedd haen o laid brown (002) a dyma oedd y pridd uchaf ar arwyneb y ddaear cyn gosod 001. Dyma pryd y dechreuwyd chwilio am unrhyw wrthrychau y gallent fod yn ymwneud â defnyddio'r safle fel ffald faenorol, ond ni ddaethpwyd o hyd i unrhyw beth. O dan yr haen o laid, roedd haen o rwbel cerrig (003). Efallai mai gweddillion wal neu adeilad wedi syrthio oedd hwn, ond i wneud y cloddio yn haws, tynnwyd yr haen hon hefyd gyda'r JCB. O dan gerrig 003, fe ddechreuon ni weld darnau o bridd gwahanol liwiau yn rhan uchaf y llaid naturiol 004. Roedd hyn yn awgrymu bod nodweddion archaeolegol yn y ffos 1.20m islaw lefel y tir diweddar.

Ar ôl glanhau'r pridd rhydd o ochrau a gwaelod y ffos, roedd modd diffinio ymylon y nodweddion siâp gwahanol. Wrth i ni lanhau, darganfuwyd sawl darn o grochenwaith yn rhan uchaf rhai o'r nodweddion. Mae'r crochenwaith wedi cael ei adnabod fel 'Nwyddau Dyfed wedi'u Tymheru gan Raean' (DGTW) sy'n gallu amrywio o ran dyddiad rhwng diwedd y 12fed ganrif a dechrau'r 16eg ganrif (gweler Atodiad 1). Adferwyd un darn o 'Nwyddau Proto-Ham Green' fodd bynnag, o nodwedd aelwyd 021. Gellir ei ddyddio rhwng y 12fed ganrif a dechrau'r 13eg ganrif (gweler Atodiad 1) a gallai awgrymu bod crochenwaith DGTW hefyd o'r cyfnod hwn.

Y nodwedd gyntaf i gael ei chloddio (pwll hirsgwar 012) oedd y nodwedd ddiweddaraf i gael ei chreu hefyd. Yn y pwll, darganfuwyd gweddillion cymalog dau ysgerbwd ci. Gellid gweld bod bedd y cŵn wedi cael ei dorri yn union islaw'r haen siâl (001), ond roedd wedi'i dorri trwy haenau 002 a 003. Felly, gwyddom fod y cŵn wedi cael eu claddu cyn 1968 ond ar ôl y Canol Oesoedd (sydd wedi selio o dan haen 003). Mae'r nodweddion eraill yn Ffos 2 i gyd naill ai o gyfnod y Canol Oesoedd neu'n gynharach.

Arwyneb sathredig o gerrig bach oedd dyddodyn 015, sy'n ffurfio hanner cylch (mae'r hanner arall yn gorwedd y tu hwnt i ymyl y ffos). Gallai'r rhain fod yn gysylltiedig ag o leiaf rhai o'r nodweddion yng ngrŵp 016 (gweler ffig 4). Grŵp o 'dyllau stanc' oedd hwn a ffurfiwyd trwy wthio polion pren i mewn i'r ddaear. Mae'r patrwm a wnânt yn awgrymu y gallai'r tyllau stanc fod wedi ffurfio ffens, yn rhedeg ar ongl ar draws y ffos, yn dangos ffin o bosibl rhwng dau eiddo neu o amgylch corlan anifeiliaid. Gallai rhai o'r tyllau stanc hefyd fod wedi diffinio ymyl arwyneb 015, sy'n awgrymu rhan o gorlan anifeiliaid grwn neu adeilad bach crwn â llawr (gweler lluniau 13 a 14).

Mae'n debyg bod nodweddion 025, 045, 047, 049, 051 a 057 i gyd yn 'dyllau pyst'. Claddwyd y rhain yn wreiddiol i ddal postyn pren. Weithiau, roedd 'cerrig pacio' yn cael eu gosod yn sownd o amgylch y postyn i'w gadw'n gadarn yn ei le. Er bod y pyst pren wedi pydru, canfuwyd rhai o'r 'cerrig pacio' hyn yn eu lle yn y tyllau pyst (gweler lluniau 9 a 12). Gallai tyllau pyst 025, 047, 049 a 057 ffurfio rhes, neu ran o gylch mawr o dyllau pyst sy'n parhau y tu hwnt i derfynau ymylon y ffos. Yn anffodus, nid oes gennym ddigon o dystiolaeth i ddweud yn bendant beth oedd y nodweddion hyn yn rhan ohono.

I'r de o'r tyllau pyst, torrwyd rhan o nodwedd hir, denau ac eithaf crwm (011) ar draws y ffos. Roedd hwn yn rhan o ffos grom fwy, y mae dim ond rhan ohoni yn gorwedd yn y ffos. Wrth i'r nodwedd hon gael ei chloddio, sylwyd ar ddarnau o ddaear dywyllach a 'cherrig pacio' a oedd yn awgrymu bod y ffos wedi cael ei chloddio yn wreiddiol i ddal cyfres o byst.

Gydaî gilydd, mae'r nodweddion hyn yn cynrychioli gweddillion wal allanol 'tŷ crwn' wedi'i adeiladu â physt pren. Cafwyd prawf o hyn pan ddarganfuwyd arch o dyllau stanc bach (059) yn rhedeg o amgylch ymyl mewnol ffos 011. Mae'n debygol mai gweddillion wal fewnol 'plethwaith a dwb' yr adeilad yw'r rhain. Mae grwpiau tyllau stanc 061 a 063 yn ffurfio llinellau syth, ac efallai mai gweddillion rhaniadau ystafell bleth yn y tŷ crwn ydynt.

Y cliw olaf i'r ffaith ein bod wedi dod o hyd i dŷ crwn oedd ardal o ddaear wedi mynd yn goch yng nghornel dde ddwyreiniol y ffos (nodwedd 052). Gweddillion lle tân oedd y nodwedd hon, a fyddai wedi bod yng nghanol y tŷ crwn. Cymerwyd samplau o'r pridd o'r aelwyd hon (021) i adfer gweddillion planhigion rhuddedig a chael dyddiad Carbon $^{14}$ (gweler y drafodaeth ac Atodiadau 2 a 4).

Roedd yn ymddangos mai toriad hirsgwar oedd nodwedd 066, ond ar ôl ei chloddio, nid oedd yn glir beth oedd y nodwedd hon o hyd. Efallai mai man treuliedig yn y llawr oedd, a lenwodd â llaid pan adawyd y tŷ crwn.

Mae nodwedd 020 yn ddiddorol oherwydd ei bod yn nodi lleoliad blaenorol maen mawr a dynnwyd gyda'r JCB ar ddechrau'r cloddio cyn dod o hyd i'r tŷ crwn. Mae hyn yn anarferol oherwydd mae'n golygu bod y maen yn bresennol pan oedd y tŷ crwn yn cael ei ddefnyddio. Mae'n aneglur a oedd iddo ddiben neu swyddogaeth benodol. Gwelir ail graig fawr â'r rhan uchaf yn wastad, sydd yn ôl pob tebyg yn gorwedd ar lawr y tŷ crwn, ar ochr y ffos ar ochr chwith y lle tân (gweler ffigur 5). Efallai y bu'r graig hon yn gysylltiedig â'r lle tân, efallai fel rhywle i osod potiau coginio.

**Ffos 2** (gweler ffigurau 6 a 7)

Eto, gan dybio bod castell ar y safle, roedd Ffos 2 wedi'i lleoli er mwyn iddi ddarparu traws toriad trwy amddiffynfeydd y castell. Tynnwyd yr haenau cyntaf eto gyda'r peiriant cloddio mecanyddol JCB. Roedd haenau'r pridd yn wahanol iawn i'r rheiny a amlygwyd yn Ffos 1.

Y nodwedd gyntaf a ddarganfuwyd oedd wal gerrig y ffald faenorol (008). Fe'i hadeiladwyd o ddarnau gwastad o siâl a osodwyd ar eu hymylon. Techneg adeiladu wal â cherrig sych yw hon sy'n nodweddiadol o'r ardal. Nid oedd rhannau uchaf y wal a'i rhan fewnol (055) wedi'u hadeiladu cystal, ac mae'n debyg eu bod yn enghreifftiau o waith atgyweirio a wnaed i'r wal ar adegau amrywiol (gweler ffigurau 7 ac 8 a llun 17).

Wrth gloddio yn erbyn wyneb y wal ar ochr fewnol y maes parcio, daethpwyd o hyd i'r un dyddodyn siâl (007) â'r hyn a ganfuwyd yn Ffos 1 (001), ond oddi tano, daethpwyd o hyd i grochenwaith a gwydr, gan gynnwys potel math Burgundy o

Ffrainc yn dyddio i oddeutu 1820-1900, a photel fach o ddiwedd y 19eg neu ddechrau'r 20fed ganrif o ddyddodyn 040.

Wrth i ni gloddio i lawr ar y tu allan i wal y ffald, daeth yn amlwg iddi gael ei hadeiladu yn syth ar ben gweddillion wal gynharach. Roedd y wal hon yn llydanach (tua 2.20m) na wal y ffald ac roedd wedi cael ei hadeiladu yn wahanol, gyda cherrig wedi'u gosod yn llorweddol yn wynebu tuag allan (034), a chraidd rwbel (009). Yr hyn sy'n ddiddorol yw'r ffaith ei bod yn ymddangos mai dyma'r un dechneg adeiladu a ddefnyddiwyd yn y wal o amgylch mynwent yr eglwys.

Roedd cerrig sylfaen mawr wedi cael eu gosod i mewn yn sownd ar hyd gwaelod y wal isaf (034) a adeiladwyd mewn ffos adeiladu (035). Adferwyd darn o grochenwaith 'DGTW' o lenwad y ffos adeiladu, sy'n awgrymu na chafodd wal y castell ei hadeiladu cyn diwedd y 12fed ganrif. Credwn mai gweddillion wal y castell yw'r wal isaf hon. Dymchwelwyd y wal i lawr i lefel y tir yn ddiweddarach, felly dim ond y gweddillion a gladdwyd sydd wedi goroesi. Mae'n debygol bod y cerrig o wal y castell wedi cael eu hailddefnyddio i adeiladu wal y ffald ac adeiladau eraill ym Maenclochog.

Cloddiwyd dau dwll postyn yn Ffos 2. Torrwyd twll postyn 047 i mewn i gerrig wal y castell, a thorrwyd twll postyn 027 trwy briddoedd i'r de o'r wal. Nodwyd trydydd twll postyn tebygol (054) hefyd, ond ni chafodd ei gloddio. Roedd yn ymddangos fel petai wedi cael ei dorri i mewn i wal y castell, ond roedd wal y ffald wedi cael ei hadeiladu drosto (gweler llun 18 a ffig 6 ac 8). Adferwyd dyddiad $C^{14}$ o lenwad twll postyn 027, a chanfuwyd ei fod yn dyddio'n ôl i gyfnod rhwng 1440 a 1640 OC (2 sigma wedi'u graddnodi), a allai helpu awgrymu pryd y dymchwelwyd y castell (gweler y drafodaeth ac atodiad 4).

Y tu allan i'r waliau, roedd haenau'r pridd yn wahanol iawn o ran cymeriad i'r rheiny a ganfuwyd yn Ffos 1. Roedd dyddodyn 005 yn dywyll iawn, yn friwsionllyd ac yn organaidd. Mae gwydr a chrochenwaith modern o'r dyddodyn hwn yn dangos iddo gael ei ffurfio yn gymharol ddiweddar, o wastraff domestig wedi pydru a daflwyd dros wal y ffald yn ôl pob tebyg. Tynnwyd dyddodyn 005 a'r dyddodyn isod (037), gyda'r JCB, nes dod o hyd i ddyddodyn clai melyn 036.

Tybir mai gweddillion clawdd daear, a wnaed o'r ddaear wedi'i gloddio allan o ffos fawr (toriad 041) yw dyddodyn 036. Gyda'i gilydd, byddai'r nodweddion hyn wedi ffurfio ffos a chlawdd amddiffynnol a aeth o amgylch wal y castell. Oherwydd bod wal y castell wedi'i thorri yn glawdd amddiffynnol, mae'n rhaid mai'r clawdd a gafodd ei adeiladu yn gyntaf. Gallai dyddodyn 037, a oedd yn lliw llwyd, fod yn ddeunydd clawdd, neu gallai fod wedi cael ei osod ar ôl dymchwel y clawdd. Ymddengys yn debygol y byddai'r clawdd wedi cael ei ddymchwel pan adeiladwyd wal y castell. Gallai rhigol isel (nodwedd 030) yn arwyneb dyddodyn 036 fod yn weddillion llwybr mwdlyd a ffurfiwyd wrth adeiladu neu ddymchwel y clawdd amddiffynnol.

Ar ochr ddeheuol y ffos, roedd yn ymddangos mai dyddodion 013 a 032 oedd yn llenwi rhan uchaf y ffos (041). Mae crochenwaith a ganfuwyd yn y dyddodion hyn yn awgrymu iddynt gael eu gosod rhwng yr 16fed ganrif a'r 18fed ganrif, ond ni ddaethpwyd o hyd i unrhyw dystiolaeth i awgrymu pryd y cloddiwyd y ffos yn wreiddiol.

Ar ochrau twll postyn 027, gwelid band o glai llwyd tywyll (038) islaw gweddillion y clawdd amddiffynnol (gweler llun 23). Roeddem yn credu y gallai'r haen hon fod ar lefel y tir cyn i'r clawdd gael ei adeiladu. Tynnwyd y clawdd felly i weld a oedd unrhyw nodweddion archaeolegol wedi'u cloddio o dan y clawdd. Cadarnhawyd mai pridd wedi'i gladdu yw nodwedd 038, sy'n gorwedd ar ben pridd llaid naturiol 039, ond ni amlygwyd unrhyw nodweddion. Cymerwyd sampl

o'r pridd wedi'i gladdu o dan y clawdd gan obeithio cael siarcol ar gyfer dyddiad $C^{14}$, a chanfuwyd ei fod yn dyddio'n ôl i gyfnod rhwng 880 OC a 1020 (2 sigma wedi'u graddnodi) (gweler y drafodaeth ac atodiad 4).

**TRAFODAETH**

Ar ôl cwblhau'r cloddiad a chael canlyniadau dadansoddiad arbenigol o weddillion planhigion rhuddedig y crochenwaith a'r dyddiadau $C^{14}$ a adferwyd o'r safle (gweler atodiadau), mae modd dehongli'r gweddillion a ddarganfuwyd yn awr, eu cymharu â'r dystiolaeth o safleoedd archaeolegol eraill a'u rhoi mewn cyd-destun hanesyddol.

**Ffos 1**
Canfuwyd tystiolaeth o un adeilad o leiaf y tu mewn i ardal y castell, fel yr oeddem wedi gobeithio. Roedd y crochenwaith o'r ffos hon yn awgrymu bod y nodweddion yn deillio dyddiad cywir iddynt fod yn gysylltiedig â'r castell canoloesol (h.y. 12fed ganrif). Roedd siâp yr adeilad, fodd bynnag, yn awgrymu y gallai fod yn tarddu o'r Oes Haearn.

Cloddiwyd tai crwn mewn amrywiaeth o ffurfiau. Ar rai safleoedd, efallai nad yw'r dystiolaeth wedi cael ei chadw'n ddigon da i ddangos sut y cafodd tŷ crwn ei adeiladu. Ym Maenclochog, fodd bynnag, roedd y tai crwn wedi cael eu cadw'n dda, ac roedd arddull yr adeiladu'n glir.

Mae gan rai tai crwn 'rigolau diferu' o amgylch y tu allan i'r tŷ, wedi'u ffurfio gan ddŵr yn rhedeg oddi ar y to (ni cheir hyn ym Maenclochog). Ar gyfer waliau'r tŷ, mae gan rai dyllau pyst wedi'u trefnu mewn cylch. Ar gyfer tai eraill, mae'r pyst wedi'u trefnu mewn rhigol twll postyn barhaus (gallai'r naill enghraifft a'r llall fod yn bresennol mewn gwahanol adeiladau ym Maenclochog). Nid yw'r 'wal fewnol' i'w gweld ym mhob achos. Lle gwelir y wal fewnol, gall fod ar ffurf naill ai trefniant mewn cylch o dyllau pyst neu dyllau stanc (fel y ceir ym Maenclochog), neu o byst neu stanciau mewn rhigol barhaus.

Cloddiwyd tai crwn o'r cyfnod Neolithig (4400-2300 CC), ond fe'u gwelir amlaf yn yr Oes Haearn a'r cyfnod Brythonig-Rufeinig. Ceir ychydig bach o dystiolaeth i awgrymu y gallai fod y tai crwn yn parhau i gael eu defnyddio ar ddechrau'r Canol Oesoedd (Johnston 2007).

Mae rhywfaint o dystiolaeth archaeolegol o gloddiadau yn Drim Camp yn Sir Benfro (Williams a Mytum 1998), lle dehonglwyd bod grŵp bach o nodweddion sydd wedi'u dyddio i 613-871 OC (2 sigma wedi'u graddnodi) o bosibl yn dŷ crwn a wal bleth ddwbl. Mae enghreifftiau eraill wedi cael eu cloddio mewn mannau eraill yng Nghymru (Redknap 2004).

Gallai'r parhad ymddangosiadol hwn mewn arddull adeiladu awgrymu arddull frodorol a ddefnyddid dros gyfnod o sawl canrif. Mae waliau dwbl hefyd yn nodweddiadol o dai crwn ar ddechrau'r Canol Oesoedd yn Iwerddon (Edwards 1990, 22-5). Ni chanfuwyd unrhyw dystiolaeth eto i awgrymu y parhaodd traddodiad adeiladu'r tŷ crwn i'r cyfnod Eingl-Normanaidd canoloesol.

Er y tybid ei bod yn fwyaf tebygol i'r tŷ crwn ym Maenclochog gael ei adeiladu yn yr Oes Haearn, roedd y crochenwaith a ganfuwyd yn rhan uchaf rhai o'r nodweddion yn awgrymu ei fod yn dyddio'n ôl i'r 12fed ganrif. Roedd hefyd yn anarferol nad oedd unrhyw bridd wedi ymgasglu rhwng yr hwn a oedd yn ymddangos yn adeilad o'r Oes Haearn a'r crochenwaith canoloesol. Roedd dadansoddiad o weddillion y planhigion rhuddedig hefyd yn awgrymu y gallai dyddiad o'r Canol Oesoedd fod yn fwy tebygol. Cafwyd yr ateb terfynol i'r

dirgelwch hwn gan ddyddiadau $C^{14}$ y darnau siarcol a oedd yn llenwi'r aelwyd (021) y tu mewn i'r adeilad.

Y dyddiad a gafwyd o'r aelwyd oedd 980 i 1160 OC (2 sigma wedi'u graddnodi). Mae'r amrediad hwn o ddyddiadau yn awgrymu bod yr adeilad a nodweddion eraill ym Maenclochog o bosibl o'r Canol Oesoedd (cyn y cyfnod Eingl-Normanaidd), ond gallai hefyd fod wedi cael ei adeiladu (neu fod rhywun yn byw yno) yn ystod cyfnod y goncwest Eingl-Normanaidd yn yr ardal. Mae tystiolaeth y dyddiad o'r crochenwaith a adferwyd o rannau uchaf y nodweddion yn Ffos 1, yn awgrymu dyddiad tuag at ddiwedd yr amrediad dyddiad $C^{14}$.

Arwyddocâd y dyddiadau hyn yw ei fod yn awgrymu bod adeiladau tai crwn yn bresennol ar y safle cyn, ac o bosibl hyd yn oed yn ystod cyfnod Eingl-Normanaidd y Canol Oesoedd.

**Ffos 2**

Yn Ffos 2, daethom o hyd i weddillion wal 2.2m o drwch sydd, yn ôl pob tebyg, yn rhan o'r castell canoloesol. Tybiwn fod y wal yn parhau i amgylchynu'r maes parcio, o dan wal y ffald. Y tu allan i'r wal hon, roedd gweddillion clawdd a ffos yr ydym hefyd yn tybio eu bod yn ffurfio cylch mawr o amgylch wal y castell.

Yn ystod y cloddio, er nad oeddem yn gallu dweud bod y clawdd amddiffynnol a'r ffos wedi cael eu hadeiladu cyn wal y castell, nid oeddem yn siŵr p'un ai gweddillion lloc amddiffynnol o'r Oes Haearn oedd y clawdd a'r ffos ai peidio (yn ôl yr hyn a awgrymwyd gan Fenton ym 1811). Roedd yr un mor bosibl mai gweddillion fersiwn gynharach o'r castell canoloesol oedd y clawdd a'r ffos.

Yn dilyn y goncwest Eingl-Normanaidd yng Nghymru, adeiladwyd llawer o gestyll i gyhoeddi'r ffaith fod awdurdod gwleidyddol Normanaidd wedi'i sefydlu mewn ardal. Cafodd y rhain eu hadeiladu o bridd a phren i ddechrau, a dim ond yn ddiweddarach y cawsant eu hailadeiladu mewn carreg. Gallent fod wedi defnyddio canolfannau presennol arglwyddiaethau brodorol Cymru neu'r 'llys'. Heb dystiolaeth dda o ddyddiad, felly, mae'n anodd gwahaniaethu rhwng amddiffynfeydd pren o'r naill gyfnod neu'r llall.

Mae nifer fawr o safleoedd gwrthglawdd amddiffynnol o'r Canol Oesoedd yng ngorllewin Cymru, gydag amrywiaeth o ffurfiau gwahanol, gan gynnwys cestyll mwnt a beili. Mae ffurf arall o wrthglawdd canoloesol amddiffynnol, yr 'amddiffynfa gylch' hefyd yn gyffredin yn ne a gorllewin Cymru. Beili heb fwnt yw amddiffynfeydd cylch yn eu hanfod.

Mae amrywiaeth o wrthgloddiau o'r Oes Haearn hefyd sy'n amrywio o ran graddfa o fryngaerau mawr, i ffermydd amddiffynnol bach. Mae tystiolaeth gynyddol i awgrymu bod amddiffynfeydd o'r Oes Haearn o ba bynnag raddfa, yn arfer cael eu defnyddio ymhell i ddechrau'r Canol Oesoedd, fel lloches mewn cyfnod o argyfwng, neu fel canolfan breswyl dynion pwerus. Gallai ailddefnyddio'r safleoedd y mae iddynt arwyddocâd yn wleidyddol ac yn strategol o gyfnodau blaenorol fod wedi parhau yn ystod y goncwest Eingl-Normanaidd yn yr ardal. Efallai bod myntiau ac amddiffynfeydd cylch wedi'u hadeiladu mewn gwrthgloddiau cynharach. Mae cyn lleied o'r safleoedd hyn wedi cael eu cloddio fel nad ydym yn gwybod yn sicr beth yw arwyddocâd y gwahaniaethau rhyngddynt, na hyd yn oed faint oed ydynt mewn gwirionedd.

Mae'r castell ym Maenclochog yn ddiddorol oherwydd bod ganddo rai nodweddion sy'n awgrymu ei fod yn lloc amddiffynnol o'r Oes Haearn, tra bod nodweddion eraill yn awgrymu ei fod yn gastell 'amddiffynfa gylch' neu'n gastell 'mwnt a beili'. Mae Ffigur 4 yn dangos cynllun o'r modd y gallai safle Maenclochog fod wedi

ymddangos fel anheddiad amddiffynnol yn yr Oes Haearn. Mae ganddo ffos a chlawdd, ac roedd, yn ôl pob tebyg yn cynnwys brigiad creigiau naturiol fel nodwedd amddiffynnol ychwanegol. Mae siâp a maint y safle yn seiliedig ar ganlyniadau'r cloddiad, tystiolaeth o fapiau, a gwaith dyfalu! Nesaf ato, mae cynlluniau dau loc tebyg o'r Oes Haearn a gloddiwyd ger Llanhuadain. Mae pob un o'r tri safle yn debyg o ran maint a chynhwysedd.

Mae'r crochenwaith o'r ffos sail ar gyfer wal y castell yn awgrymu iddi gael ei hadeiladu rhywbryd rhwng 1200 a 1600 OC. Mae'r cynharaf o'r dyddiadau hyn yn cyd-fynd yn dda â chyfeiriadau dogfennol yn y croniclau Cymreig sy'n awgrymu bod castell ym Maenclochog erbyn o leiaf 1215.

Mae Ffigur 5 yn dangos cynllun o Faenclochog fel castell canoloesol. Gellir cymharu cynllun castell Maenclochog â'r castell mwnt a beili yng Nghas-wis. Y gwahaniaeth amlycaf rhwng y ddau safle yw eu maint. Os oedd y clawdd amddiffynnol wedi goroesi i fod yn weddol uchel, byddai angen ei dynnu pan adeiladwyd y wal berimedr garreg. Gallai hyn awgrymu nad oedd y clawdd a'r ffos bellach yn nodweddion amddiffynnol erbyn y cyfnod hwn. Gallai'r brigiad cerrig naturiol fod wedi cael ei ymgorffori yn yr amddiffynfeydd fel mwnt. Gallai'r clawdd a'r ffos felly fod yn weddillion cyfnod gwrthglawdd cynharach y castell, a adeiladwyd i sefydlu troedle amddiffynnol, cyn y gellid adeiladu'r castell yn fwy sylweddol mewn carreg.

Mae'r dyddiad $C^{14}$ o dwll postyn 027, yn awgrymu bod y castell wedi cael ei ddymchwel erbyn rhywbryd rhwng 1440 a 1640 OC (2 sigma wedi'u graddnodi). Mae hyn yn cyd-fynd yn dda â'r dystiolaeth ddogfennol fod castell yn bodoli ym 1376 (Llyfrfa Ei Mawrhydi), yn ogystal â'r ffaith ei bod yn amlwg nad oedd castell yno erbyn diwedd yr 16eg ganrif (pan nad yw'r hynafiaethwr o Oes Elizabeth, George Owen, yn sôn amdano).

Posibilrwydd arall yw y gallai'r ffos a'r clawdd fod yn 'amddiffynfa gylch'. Mae'r math hwn o wrthglawdd amddiffynnol yn gyffredin yn ne a gorllewin Cymru, ond nifer fach o safleoedd, os o gwbl, sydd wedi cael eu cloddio neu eu dyddio. Credir bod mwyafrif y safleoedd hyn yn dyddio'n ôl i'r Canol Oesoedd, er y gallai fod iddynt darddiadau cynharach. Adeiladwyd cestyll 'amddiffynfa gylch' a 'Mwnt a Beili' gan yr Eingl-Normaniaid a'r Cymry fel ei gilydd, ond mae ansicrwydd ynglŷn â'r hyn a oedd yn pennu dewis y naill arddull neu'r llall (Highham a Barker 2006, tudalen 65).

Y dyddiad a gafwyd o dan y clawdd (038) oedd 880 i 1020 OC (2 sigma wedi'u graddnodi). Mae'r dyddiad hwn yn ddiddorol iawn am sawl rheswm. Yn gyntaf, mae'n awgrymu na chafodd amddiffynfeydd y clawdd a'r ffos eu hadeiladu yn ystod yr Oes Haearn na chyfnod y Rhufeiniaid. Mae hyn hefyd yn cefnogi tystiolaeth y dyddiad o Ffos 1, a oedd yn awgrymu nad yw'r tŷ crwn efallai yn tarddu o'r Oes Haearn.

Mae'r amrediad dyddiadau 880 i 1020 OC yn awgrymu y gallai'r clawdd a'r ffos amddiffynnol fod wedi cael eu hadeiladu tuag at ddiwedd cyfnod dechrau'r Canol Oesoedd, cyn concwest yr Eingl-Normaniaid yng Nghymru. Nid yw'r dyddiad, fodd bynnag, yn eithrio'r posibilrwydd i'r amddiffynfeydd gael eu hadeiladu yn ddiweddarach, adeg concwest yr Eingl-Normaniaid o bosibl.

Gan dybio bod y tyllau pyst yn gysylltiedig â'i gilydd, o'r dystiolaeth o'r dyddiad a adferwyd o lenwad twll postyn 026, gellir dweud bod wal y castell wedi cael ei dymchwel erbyn y cyfnod rhwng 1440 a 1640 OC, a bod wal y ffald wedi cael ei hadeiladu ar ôl hynny.

Felly beth mae'r cloddiad cymunedol wedi dweud wrthym am hanes Maenclochog? Mae bellach yn amlwg fod lloc amddiffynnol eisoes ar y safle a allai fod yn dyddio'n ôl i 880 OC, cyn sefydlu'r anheddiad Eingl Normanaidd 'planedig'. Yn dilyn y system ddeiliadol draddodiadol Gymreig, gallai'r lloc ym Maenclochog fod wedi bod yn gadarnle amddiffynedig Arglwydd Cymreig yng nghanol cwmwd yng Nghantref Cemais.

Yn ystod, neu ar ôl concwest yr Eingl-Normaniaid yn Sir Benfro, gallai cwmwd Maenclochog fod wedi cael ei fabwysiadu yn ganolfan arglwyddiaeth newydd o dan reolaeth ddeiliadol Eingl-Normanaidd. Er na ddaethpwyd o hyd i anheddiad cyn y cyfnod Normanaidd canoloesol neu hyd yn oed yn gynharach ym Maenclochog yn y lleoliadau a gloddiwyd, ni ellir diystyru'r ffaith eu bod yn bresennol yn yr ardal o'i hamgylch.

Gallai'r ffaith fod sefydliad amddiffynnol a oedd eisoes yn bod (amddiffynfa gylch?), ac efallai anheddiad cysylltiedig yn bresennol, yn rheswm digonol i beidio ag adeiladu mwnt a beili mawr o'r dechrau. Fel arall, efallai nad oedd unrhyw angen gwleidyddol, nac adnoddau digonol i ymgorffori datganiad o awdurdod wrth adeiladu castell mwnt a beili mawr.

Byddai'n ymddangos bod tŷ crwn, sydd o bosibl wedi'i gynnwys mewn lloc amddiffynnol o ddechrau'r Canol Oesoedd, wedi'i gysylltu â chrochenwaith o'r 12fed ganrif, gyda'r dyddiad $C^{14}$ yn 880-1020 OC, ac wedi'i gysylltu â gweddillion planhigion rhuddedig a welir fel arfer mewn cyd-destunau canoloesol, yn dystiolaeth nodedig o draddodiad adeiladu tŷ crwn brodorol a barhaodd trwy'r cyfnod Brythonig-Rufeinig, i ddechrau'r Canol Oesoedd, ac o bosibl i'r cyfnod Eingl-Normanaidd hyd yn oed.

Cefnogir tystiolaeth am y dyddiad gan y ffaith nad oes haenau pridd ymddangosol y gellid disgwyl iddynt fod wedi ymgasglu dros gyfnod pe bai tarddiadau cyn-hanesyddol i'r adeilad. Rhaid bod yn ofalus, fodd bynnag, gan nad yw'r ardal gyfyngedig a gloddiwyd efallai wedi dangos y darlun cyflawn o'r modd y newidiodd y safle dros gyfnod. Gallai fod tystiolaeth, er enghraifft, o adeiladau canoloesol arddull Eingl-Normanaidd sy'n gysylltiedig â defnyddio'r castell mewn rhannau eraill o'r safle yn ddiweddarach, neu gallai cysylltiad yr aelwyd â'r tŷ crwn rhywsut fod yn anghywir. Mae'r dehongliadau a gynigir yma yn ceisio ystyried y dystiolaeth a gafwyd, ac maent yn cynnwys sawl rhagdybiaeth am gydberthynas y nodweddion sydd mewn mannau gwahanol. Dim ond cloddio pellach a allai gadarnhau neu wrthbrofi'r canlyniadau a gafwyd.

**CASGLIADAU**

Does dim amheuaeth fod y cloddio ym Maenclochog wedi llwyddo mewn amrywiaeth o ffyrdd. I'r gymuned, mae wedi cadarnhau'r ffaith fod y castell wedi'i leoli ac wedi goroesi o dan y maes parcio. Mae hefyd wedi darparu tystiolaeth sy'n mynd â hanes Maenclochog yn ôl i ddechrau'r Canol Oesoedd.

Er bod graddfa'r cloddio a nifer y cyfranogwyr a allai gymryd rhan yn gymharol fach, fe wnaeth nifer yr ymwelwyr, y sylw da gan y cyfryngau, 'dyddiadur y cloddio' a theithiau o'r safle, i gyd helpu i drefnu bod cynulleidfa ehangach yn rhan o'r cloddio.

Dangosodd y gymuned lawer o ddiddordeb cadarnhaol yn y cloddiad, a mwynhaodd pawb a fu'n cymryd rhan. Roedd y cyfranogwyr yn gallu cymryd rhan yn y rhan fwyaf o'r agweddau ar y cloddio, cyfarfod pobl newydd, dysgu sgiliau newydd, ac ymwneud â'r broses o ddehongli ac esbonio'r safle i ymwelwyr.

Mae'r cloddiad wedi ysgogi awydd i ddarganfod mwy am hanes Maenclochog, ac fe fydd, gobeithio, yn ysbrydoli amrywiaeth o ddiddordebau a gweithgareddau cymunedol yn y dyfodol, yn enwedig mewn cydweithrediad â'r grŵp hanes cymunedol sy'n cael ei annog gan PLANED. Bydd darganfyddiadau'r cloddiad yn cael eu cynnwys ar 'banel gwybodaeth' i'w roi yn y maes parcio sy'n esbonio hanes y safle, ynghyd â phanel arall a fydd yn cael ei leoli yng nghanol y pentref. Gallai hyn fod yn rhan o'r gwelliannau ehangach i ymddangosiad y safle i gynyddu gwerthfawrogiad o'i hanes.

Yn archaeolegol, mae'r cloddiad wedi dangos bod gweddillion sydd wedi cadw'n dda yn dyddio o ddechrau'r Canol Oesoedd, yn goroesi ym Maenclochog. Mae'r safle yn gwneud cyfraniad pwysig i'n dealltwriaeth o'r modd y mae aneddiadau yn Sir Benfro wedi datblygu dros gyfnod, sydd efallai'n awgrymu y gallai fod tarddiadau cynharach i aneddiadau eraill yn yr ardal nag a dybid yn flaenorol. Mae'n amlygu gwerth posibl cyfleoedd cloddio o'r fath ar gyfer cynyddu ein dealltwriaeth o ddatblygu aneddiadau ymhellach sydd fel arall yn seiliedig ar ddulliau anymwthiol.

Mae'r dystiolaeth glir ar gyfer parhad o adeiladu tai crwn hyd at goncwest yr Eingl-Normaniaid yng ngorllewin Cymru yn ddarganfyddiad arwyddocaol a fydd, yn sicr, yn ddiddorol ar gyfer ymchwilio i Gymru ar ddechrau'r Canol Oesoedd.

I Archaeoleg Cambria, mae'r cloddiad wedi darparu archaeoleg ardderchog ac wedi bod yn gyfle gwerthfawr i ddatblygu ei allu i ymgymryd â phrosiectau 'allymestyn'. Mae wedi dangos y gellir ymgymryd ag archaeoleg effeithiol, ac y gellir gwneud darganfyddiadau pwysig trwy gydweithio â sefydliadau eraill mewn cydweithrediad â'r cyhoedd.

Bydd copïau o'r adroddiad hwn yn cael eu rhoi i gyfranogwyr yn y prosiect a'r gymuned ehangach. Bydd yr adroddiad hefyd ar gael ar ddogfen 'PDF' y gellir ei lawr lwytho ar wefan Archaeoleg Cambria.

**GEIRFA**

**AMS**: Dull ar gyfer cael dyddiadau Carbon 14 o samplau siarcol bach iawn yw dyddio radio carbon Sbectrometreg Màs Cyflymwr.

**Beili**: Cwrt amddiffynnol castell, sy'n aml yn cynnwys Adeiladau domestig neu adeiladau eraill.

**Llain tir bwrdais**: Llain o dir sy'n hirach na'i led, yn nodweddiadol mewn anheddiad canoloesol, mae'n aml yn cynnwys tŷ ar flaen stryd neu strwythur arall.

**Cantref**: Rhanbarth yng Nghymru yn y Canol Oesoedd, sydd wedi'i rannu'n 'gymydau'. Roedd gan bob cantref ei lys ei hun, a oedd yn cael ei lywyddu gan y brenin neu ei gynrychiolydd.

**Dyddio $C^{14}$**: Gellir dyddio deunydd organaidd trwy fesur faint o garbon 14 y mae'n ei gynnwys oherwydd bod y $C^{14}$ yn pydru'n rheolaidd o'r adeg pan gaiff ei greu.

**2 sigma wedi'u graddnodi**: Mesur o'r 'gwyriad safonol' neu gywirdeb y dyddiad $C^{14}$ yw hwn. Mae dyddiadau 2 sigma wedi'u graddnodi 85% yn gywir.

**Cemais**: Un o'r saith Cantref neu'r 'is-deyrnasoedd' yn nheyrnas hynafol Dyfed yng Nghymru.

**Cwmwd**: Rhaniad o dir yng Nghymru, mewn cantref. Mae'n fwy na threfgordd ond yn llai nag arglwyddiaeth.

**Lloc amddiffynnol**: Lloc, sy'n aml yn gynhanesyddol, sy'n cynnwys o leiaf un clawdd, rhagfur a ffos amddiffynnol.

**Nwyddau Dyfed wedi'u Tymheru gan Raean:** Math o grochenwaith sy'n cynnwys potiau coginio a jariau storio yn bennaf. Mae dyddiad y crochenwaith hwn yn amrywio rhwng diwedd y 12fed ganrif a dechrau'r 16eg ganrif.

**Bryngaer**: Lloc amddiffynnol ar ben bryn sydd wedi'i ffinio ag o leiaf un clawdd, rhagfur a ffosydd sylweddol.

**Chwilys**: Ymchwiliad neu archwiliad yn yr achos hwn.

**Llys**: Llys rhanbarthol neu ganolfan weinyddol Tywysog Cymreig.

**Maenor**: Ardal o dir yn cynnwys demên yr arglwydd a thiroedd y gallai hawlio ffioedd penodol, ac ati, gan eu deiliaid.

**Ffald faenorol**: Corlan, sy'n aml yn grwm â waliau cerrig, ar gyfer casglu anifeiliaid ynghyd, mewn ardal o faenor.

**Mwnt**: Ffurf gynnar o gastell yn cynnwys twmpath pridd pen gwastad, ochr serth, y mae prif dŵr castell wedi cael ei adeiladu arno.

**Cae agored**: Ardal o dir âr heb raniadau mewnol (cloddiau, waliau neu ffensys), gyda hawliau cyffredin ar ôl cynaeafu neu yn ystod braenaru. Roedd y caeau agored wedi'u his-rannu yn stribedi cul hir.

**Aneddiadau sefydledig**: Aneddiadau a sefydlwyd i annog gwladychu ardaloedd newydd a orchfygwyd o dan amddiffyniad castell.

**Nwyddau Proto-Ham Green**: Crochenwaith o Fryste sydd hefyd yn cael ei adnabod fel Nwyddau Proto-Ham Green, sydd wedi'u dyddio rhwng y 12fed ganrif a dechrau'r 13eg ganrif. Mae'n debyg eu bod yn cael eu cynhyrchu yn Pill ger Ham Green ar Aber Hafren.

**Amddiffynfa gylch**: Clawdd a ffos amddiffynnol, crwn neu hirgrwn o ran cynllun, sy'n amgylchynu un adeilad neu fwy.

**Tŷ crwn**: Strwythur crwn, sydd fel arfer yn cael ei nodi gan un cylch neu fwy o dyllau pyst a/neu rigol gron. Y dehongliad arferol yw bod iddo swyddogaeth ddomestig.

**Plethwaith a dwb:** Mae delltwaith wedi'i wehyddu o stanciau pren (plethwaith) yn cael ei orchuddio â chymysgedd o fwd a gwellt (dwb) i greu strwythur.

**AMREDIAD Y DYDDIADAU**

Priodolir y dyddiadau canlynol i'r cyfnodau archaeolegol a restrir isod:

**Neolithig:** 4400-2300 CC

**Yr Oes Efydd:** 2300-700 CC

**Yr Oes Haearn:** 700 CC-43 OC

**Rhufeinig:** 43 OC-410 OC

**Dechrau'r Canol Oesoedd** (cyn y goncwest Normanaidd)**:** 410 OC-1066 OC

(Mae'r goresgyniad **Eingl-Normanaidd** ym 1066 yn nodi diwedd cyfnod dechrau'r Canol Oesoedd)

**Y Canol Oesoedd** (ar ôl y goncwest Normanaidd)**:** 1066 OC-1485 OC

**Ar ôl y Canol Oesoedd:** 1486-1900 OC

**Modern:** 1900 OC+